CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER 30.09.2026 YN Y GANOLFAN, WAUNFAWR.

Presennol – Cynghorwyr

Hawys Tuff (Cadeirydd)
Doug Jones
Edgar Owen
Elfyn Griffith
Sali Burns
Iwan Davies
Shoned Griffith (Clerc)

1. Croeso'r Cadeirydd - Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau – Cyng DD, Cyng Delyth Jones, Cyng MT, Cyng LD

3. Ymweliad gan Catrin, Partneriaeth Dyffryn Peris.
Catrin wedi ymddiheuro, bydd yn mynychu ein cyfarfod nesaf.

4. Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

4.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

5. Derbyn Cofnodion Cyfarfod 29.07.2026
Cynnigwyd gan y Cyng EO bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir, y Cyng HT yn eilio.

6. Materion yn codi o'r Cofnodion 29.07.2026
Materion Caeathro –
Troedffordd o Gaeathro i Gaernarfon - Ar 'hold' ar hyn o bryd. Cyng EO wedi rhannu gwybodaeth yngyn a Grant sydd ar gael gyda Cyng MT
Gor-yrru – Pawb I gofio am y Cyflymder o 20 m.y.a.
Potiau Blodau – I'w drafod cyfarfod nesaf - Cyng MT.

Materion Waunfawr –
Les tir tu ol i'r Ganolfan / **Cae Aml-dywydd** – Wedi derbyn caniatad gan Cyngor Gwynedd I dacluso y coed o amgylch. Cyng DD yn delio a'r mater.
Baw Ci - Parhau i fod yn broblem a cwn yn rhydd hefyd. Cyng SB i ddyluio poster I'w roid yn yr hysbysfwrdd. Pawb I lenwi'r ffurflen ar wefan Cyngor Gwynedd I gwyno, yna bydd y Swyddog yn dod I'r pentref I archwilio.
Gwefan – Wedi ei diweddaru. Sylwadau wedi eu dileu bellach.
Tyllau yn y ffordd / Peintio llinellau - Aros i Gyngor Gwynedd ail-beintio llinellau gwyn/melyn yn y pentref i gyd a'r llinellau gwyn ar lôn yr Efail (Smithy). Ar y rhaglen waith.

Arwydd Stâd Bod Hyfryd – Dal yn aros i Gyngor Gwynedd osod arwydd newydd. Cyng EO I holi eto.
Gor-yrru – Parhau i fod yn broblem drwy'r pentref. Y Cyng EG wedi cysylltu a Go Safe a wedi derbyn ymateb yn Dilyn I'r heddlu fod yn y pentref yn ddiweddar. 11 yn mynd I fod yn mynychu'r cwrs gor-yrru. Cyng EG I gysylltu yn nol I ofyn os y byddant yn dod I'r pentref eto er mwyn monitor y cyflymder traffic.
Goleuadau'n Fflachio – Cyng EO yn mynd I holi Cyngor Gwynedd I ymweld a'r pentref er mwyn asesu os oes posibl gosod goleuadau;n fflachio ddau ben I'r pentref.
Potiau Blodau – Cyng SB wedi bod yn cynnal a chadw'r potiau o amgylch y pentref eto. Gwaith yn parhau.
Lon Garreg Fawr – Arwydd wedi ei osod rwan ger yr hen bost bod dim faniau/loriaiu I fynd lawr y ffordd. Cyng EO yn holi ymhellach.
Bont Gwyrfai – wedi cael ei malu yn ddiweddar yn Dilyn damwain car. YGC yn delio'r a'r Gwaith adnewyddu.
Grant Gwynedd Ni –Ar y gweill – Cyng DD yn arwain.

7. **Sedd Wag –** Cyng EG wedi derbyn ymholiad gan GLl yn datgan diddordeb yn ymuno a'r Cyngor Cymuned. Pawb yn bresenol yn cytuno I gynnig y sedd wag iddo. Cyng EG I gysylltu a GLl ac anfon gwybodaeth ymlaen I'r Clerc os dal a diddordeb

8. **Gerddi Bach –** Cwmni MacVenture yn mynd I wneud y gwaith angenrheidiol I gynnal a chadw yr offer yn dilyn yr adroddiad. Wedi derbyn pris o £7,595 am swing I ddau sedd babi. Pawb oedd yn bresenol yn cytuno I fynd am y swing I ddau. Clerc I gysylltu a MacVenture.

9. **Adroddiadau**

a. **Lloches Bws** – Dal iaros am bris ar gyfer set metal ar gyfer lloches ger yr hen bost. Clerc I holi cwmni arall hefyd. Dal i aros i'r enwau gael eu newid.

b. **Y Fynwent** –Wedi derbyn pris o £1,940 I ddymchwal a clirio y gorlan sbwriel. Wedi cytuno am rwan ein bod am ofyn iddo glirio y domen lawr I ddim a Clerc I holi am arwyddion I roid yno I bobl fynd a sbwriel adref hefo nhw.

c. **Llwybrau –** Dim pellach ar hyn o bryd. Llwybrau Waunfawr wedi cael eu torri.

ch. Cynllun Gwyrfai Gwyrdd – Dim pellach i'w adrodd ar hyn o bryd.

d. **Gwaith atal llifogydd Waunfawr –** Draeniau ffordd yn y pentref angen eu glanhau, holi Cyngor Gwynedd. Angen holi perchennog y tir ar ffordd yr ysgol os oes posibl agor ffosydd eto eleni, wedi gwneud gwahaniaeth mawr flwyddyn diwethaf I'r llifogydd oedd yn dod lawr ffordd yr ysgol. Cyng EG I holi y perchennog.

10. **Materion Cynllunio**

- **Ceisiadau newydd**

Dyddiad Cofrestru	Bwriad	Lleoliad	Rhif Cais	Sylwadau

11. **Gohebiaeth**

Cyng DD – Cae Pob Tywydd
Cyng DD – Adroddiad Canolfan Waunfawr
Biodiversity – pecynau Bioamrywiaeth
Cyngor Gwynedd – Cae Pob tywydd
Cyngor Gwynedd – Rhybydd Ffordd ar Gau
Theatr Bara Caws – Dadra yn dechrau ar daith

Cronfa Ynni Gwynedd Gwyrdd
Unllais
Cyng EG – ymateb Go Safe
MacVenture
Cyngor Gwynedd – Arolwg Diwygio bysiau Gogledd Cymru
Grantiau Perthyn I Gymunedau
Pritchard Jones Lane – Prydles Cae Synthetig Waunfawr
Archwilio Cymru – Anfonebau Eithriadol
Ysgol Waunfawr – Cost y ffens diogewlch o amgylch yr ysgol – trafodwyd y gost, a Cynnigwyd gan y Cyng ID ac eilwyd gan y Cyng EG byddai'r Cyngor Cymuned yn rhoi rhodd o £1,000 tuag at y gost.
Cyng Delyth Jones – anfoneb am y dorch I'w gosod ar y Cofgolofn eleni – £18.00
Cyngor Gwynedd – Preasept ail hanner 2026/27
Coeden Nadolig – Cylch Meithrin wedi cysylltu meddwl cynnal noson goleuo'r goeden ar y 22/11 neu 29/11 flwyddyn yma. Bydd angen chydig mwy o olau I'r goeden cost o oddeutu £160.00. Pawb yn bresennol yn cytuno.

12. Materion Ariannol

12.1 Arian wedi ei dalu allan

£25.00	Rhodd Cadeirydd 2025/56
£265.29	Cyflog Clerc Mehefin
£52.00	HMRC
£600	Cyfeillion Cae Chwarae Caeathro – ad-daliad torri gwair
£847.91	Archwilio Cymru
£1,473.00	G R Services
£288.00	A Hughes-Jones, Dyson & Co
£420.00	MacVenture
£516.00	Cyflog Clerc Gorffennaf ac Awst
£104.00	HMRC

12.2 Arian a dderbyniwyd

£6,000	Preasept

12.3 Anfonebau i'w talu

£1,000	Rhodd Ysgol Gynradd Waunfawr
£18.00	Torch
£1,400	G R Services

21.4 Ffioedd Banc

14. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf
Nos Fercher, 21.10.2026, yn y Ganolfan yn Waunfawr.

15. Materion Aelodau. -
Coed angen eu torri wrth ymyl y ffordd lawr Allt Bont, Clerc I gysylltu a Tim Tacluso, Cyngor Gwynedd.